

# Goblygiadau ariannol y Bil Bwyd (Cymru)

Mai 2023

# 1. Cyflwyniad

1. Ar 22 Medi 2021, llwyddodd Peter Fox AS yn y bleidlais<sup>1</sup> a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 y Senedd<sup>2</sup> ar gyfer yr hawl i gael caniatâd i gyflwyno Bil Aelod. Rhoddwyd caniatâd iddo fwrw ymlaen â'r Bil ar 17 Tachwedd 2021<sup>3</sup>.
2. Cyflwynwyd y Bil Bwyd (Cymru)<sup>4</sup> (y Bil) a'r Memorandwm Esboniadol<sup>5</sup>, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan Peter Fox AS, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, ar 12 Rhagfyr 2022.
3. Ar 14 Rhagfyr 2022, gwnaeth yr Aelod sy'n gyfrifol ddatganiad rhagarweiniol ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn<sup>6</sup>.
4. Clywodd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) dystiolaeth am oblygiadau ariannol y Bil ar 9 Chwefror 2023<sup>7</sup>, gan:
  - Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
  - David Lloyd-Thomas, Pennaeth yr Uned Polisi a Strategaeth Bwyd, Llywodraeth Cymru
5. Ac yna sesiwn gyda'r Aelod sy'n Gyfrifol:
  - Peter Fox AS, yr Aelod sy'n Gyfrifol
  - Tyler Walsh, Staff Cymorth Aelod o'r Senedd
  - Martin Jennings, Ymchwiler y Senedd
  - Elfyn Henderson, Ymchwiler y Senedd
6. Cafodd gwaith craffu polisi ei gynnal ar y Bil gan Bwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig.<sup>8</sup>

---

<sup>1</sup> Cyfarfod Llawn, 22 Medi 2021

<sup>2</sup> Senedd Cymru, Rheolau Sefydlog

<sup>3</sup> Cyfarfod Llawn, 17 Tachwedd 2021

<sup>4</sup> Bil Bwyd (Cymru)

<sup>5</sup> Memorandwm Esboniadol

<sup>6</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2022

<sup>7</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 9 Chwefror 2023

<sup>8</sup> Pwyllgor yr Economi, Masnach, a Materion Gwledig

**7.** Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil yn unol â'r materion o fewn ei gylch gorchwyl.<sup>9</sup>

## 2. Diben y Bil a'r angen amdano

**8.** Yn ystod y datganiad rhagarweiniol yn y Cyfarfod Llawn, nododd yr Aelod sy'n gyfrifol ei bod yn bwysig gwneud yr hyn a ganlyn:

*"...[b]achu ar y cyfle hwn i gryfhau system fwyd Cymru yn ei chyfanrwydd, i sefydlu system fwyd fwy cynaliadwy yng Nghymru, cryfhau diogeledd bwyd, gwella llesiant economaidd-gymdeithasol Cymru, a gwella'r dewis a roddir i ddefnyddwyr."<sup>10</sup>*

**9.** I gyflawni hyn, eglurodd yr Aelod sy'n gyfrifol bod y Bil yn "darparu fframwaith sy'n galluogi dull trawslywodraethol cydlynol, cyson a strategol, o weithredu polisi ac ymarfer ar bob agwedd o'r system fwyd".<sup>11</sup>

**10.** Ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor, dywedodd bod Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r Bil ar y sail a ganlyn:

*"... ei fod yn ddiangen, y byddai'n achosi biwrocratiaeth a chostau ychwanegol i nifer o gyrff cyhoeddus. Yn bwysicaf oll, byddai'r Bil yn tanseilio'r fframwaith deddfwriaethol a llywodraethu sydd eisoes wedi'i sefydlu yng Nghymru ac a roddwyd ar waith gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar gyfer cynllunio strategol, llunio polisiau a chymau gweithredu hirdymor".<sup>12</sup>*

**11.** Mae'r Gweinidog o'r farn bod y Bil yn bell o ddarparu system fwyd gynaliadwy, felly nid oes gan y costau berthynas, mewn gwirionedd, â'r hyn y byddai ei angen i greu system fwyd gwbl gynaliadwy.<sup>13</sup> Aeth yn ei blaen i ddweud:

*"I think the costs that are presented in the RIA are estimates for the new planning and reporting functions that various bodies would have to undertake, and that includes the new*

---

<sup>9</sup> [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad](#)

<sup>10</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 184

<sup>11</sup> Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion, 14 Rhagfyr 2022, paragraff 185

<sup>12</sup> [Papur tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru](#)

<sup>13</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 9 Chwefror 2023

*commission, but they do not include the cost of executing whatever actions might be identified in the plans coming forward.”<sup>14</sup>*

### 3. Crynodeb o'r costau

**12.** Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddio yn cael eu hasesu dros gyfnod o bum mlynedd ar ôl gweithredu'r Bil. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos mai rhwng tua £4.8 miliwn a £8.7 miliwn yw cyfanswm cost y Bil dros y cyfnod arfarnu.<sup>15</sup>

**13.** Dywedodd y Gweinidog y byddai'r gwaith sy'n ymwneud â chreu strategaeth fwyd genedlaethol, y targedau a sefydlu comisiwn yn sylweddol fwy na'r hyn sy'n cael ei amcangyfrif.<sup>16</sup> Ychwanegodd:

*“I think my paper that I've given to the committee really makes that point, and provides the example of the resource that's needed to create our current strategic vision for the food and drink industry. That costs about £195,000 a year, so I think you can see that the cost in the RIA really is underestimated.”<sup>17</sup>*

**14.** Roedd y Gweinidog o'r farn y byddai cyrff cyhoeddus yn ei chael hi'n fwy llafurus o ran adnoddau, a chwestiynodd lefel y gwaith ymgysylltu ar gostau yr oedd yr Aelod sy'n gyfrifol wedi'i wneud gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.<sup>18</sup>

**15.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog a oedd wedi cynnal dadansoddiad cost a budd ar y Strategaeth Bwyd Cymunedol a fwriedir ar gyfer Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu. Dywedodd:

*“So, no, we haven't done a cost analysis, or cost-benefit analysis, as yet. The work that we've done so far on the community food strategy—and, unfortunately, that work has had to be stopped because David Lloyd-Thomas is working on this at the moment and is also working on the community food strategy.”<sup>19</sup>*

---

<sup>14</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 8, 9 Chwefror 2023

<sup>15</sup> Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 74

<sup>16</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 9 Chwefror 2023

<sup>17</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 9 Chwefror 2023

<sup>18</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 9 Chwefror 2023

<sup>19</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 17, 9 Chwefror 2023

**16.** Roedd yr Aelod sy'n gyfrifol o'r farn y gellid bod wedi cynnal llawer mwy o waith ymgysylltu i helpu ac i weithio gyda hwy ond roedd y Gweinidog â'i bryd i beidio â chefnogi'r Bil, beth bynnag.<sup>20</sup> Dywedodd y bu'r gwaith ymgysylltu â'r Gweinidog yn seiliedig ar faterion polisi yn bennaf ac nad oedd unrhyw waith ymgysylltu penodol ynghylch costau. Nododd bod yr adnoddau a'i fynediad at wybodaeth yn wahanol iawn o'i gymharu â'r hyn fyddai ar gael i Lywodraeth Cymru.<sup>21</sup>

**17.** Fodd bynnag, dywedodd ei fod wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth leol, ar y costau.<sup>22</sup> Ychwanegodd ei swyddog:

*"...I suppose it was Welsh Local Government Association representatives; people like Food Sense Wales; Public Health Wales; Caerphilly county borough services, who are quite leading in this field; and the future generations commissioner's office as well; and NHS Wales Shared Service Partnership; the National Infrastructure Commission for Wales, when we were looking at different models; and then experts in the field as well. And I think what we've done is we've done more than just send out consultations; we've set up meetings to specifically talk through costs, ask for costs in cases, or advice and followed up on that advice."<sup>23</sup>*

**18.** At hynny, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

*"Discussions were also had between members of the Bill team and officials of the Scottish Government working on the Good Food Nation (Scotland) Act 2022, and we're thankful for the interaction that we've had with them to help us through that financial side of things."<sup>24</sup>*

## Safbwynt y Pwyllgor

**19.** Bil fframwaith yw hwn a fydd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru sefydlu Comisiwn Bwyd Cymru a datblygu strategaeth fwyd genedlaethol a chynlluniau bwyd lleol. Gan na fydd costau'r rhain yn hysbys hyd nes i'r Bil gael ei weithredu,

---

<sup>20</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 9 Chwefror 2023

<sup>21</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 9 Chwefror 2023

<sup>22</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 9 Chwefror 2023

<sup>23</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 76, 9 Chwefror 2023

<sup>24</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 75, 9 Chwefror 2023

gyda manylion yn cael eu cyflwyno'n ddiweddarach, mae sawl maes o fewn yr asesiad effaith rheoleiddiol nad yw'r Pwyllgor yn gallu ffurfio barn yn eu cylch oherwydd nad oes digon o wybodaeth ariannol wedi'i darparu.

**20.** Roedd y Pwyllgor yn feirniadol o ddull tebyg a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru o ran y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), lle na ellid darparu costau sy'n deillio o gyflwyno cynllun Rheoli Tir yn Gynaliadwy gan y byddai'n cael ei gwblhau yn dilyn gwaith craffu ar y Bil. Yn ein hadroddiad ar Oblygiadau Ariannol y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)<sup>25</sup>, gwnaethom ddod i'r casgliad fod y diffyg gwybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwneud yn anodd i'r Pwyllgor asesu cyfanswm costau'r Bil.

**21.** Rydym yn ailadrodd y farn honno mewn perthynas â'r Bil hwn. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion i'w alluogi i gynnal gwaith craffu llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Nodwn farn yr Aelod sy'n gyfrifol mai mater i Lywodraeth Cymru fydd cytuno ar raddfa a chwmpas sawl elfen o'r Bil ac, oherwydd diffyg ymgysylltu gan y Gweinidog, nid yw wedi gallu darparu amcangyfrifon costau. Felly, rydym yn cydymdeimlo â'r Aelod sy'n gyfrifol gan ein bod o'r farn y gallai'r Gweinidog fod wedi gwneud mwy i ymgysylltu â'r Bil a darparu costau ystyrlon cyn i'r Bil gael ei gyflwyno.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn siomedig â'r diffyg gwybodaeth am nifer o elfennau'n ymwneud â'r Bil ac felly ni all ddod i gasgliad ynghylch a yw'r adnoddau'n ddigonol ac yn rhesymol er mwyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth. Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion ac, os bydd y Bil hwn yn mynd rhagddo, byddem yn disgwyl i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddarau yn dilyn trafodion Cyfnod 2.

**Casgliad 2.** Rydym yn ailadrodd galwadau blaenorol bod yn rhaid i Asesiadau Effaith Rheoleiddiol gynnwys yr amcangyfrif gorau posibl ar gyfer costau a buddion i'n galluogi i gynnal gwaith craffu llawn ar oblygiadau ariannol cyffredinol Bil. Mae'r rhain yn cynnwys yr holl filiau a gyflwynwyd yn y Senedd gan Lywodraeth Cymru, Aelodau unigol a Phwyllgorau.

**22.** Fel y soniwyd, mae'r Pwyllgor yn siomedig ynghylch y diffyg ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Aelod sy'n gyfrifol, yn benodol mewn perthynas â goblygiadau ariannol y Bil. Mae hyn yn destun gofid mawr o ystyried y byddai gan Lywodraeth Cymru rôl ganolog yn ei gweithrediad. Er mai'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil sydd â'r cyfrifoldeb dros gynhyrchu a chostio'r Asesiad Effaith

---

<sup>25</sup> Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Goblygiadau ariannol y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Rheoleiddiol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithredu o ystyried bod ganddi, yn y rhan fwyaf o achosion, fynediad arbennig ac unigryw at wybodaeth o'r fath.

**23.** Ystyriodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol oblygiadau ariannol Bil arfaethedig Aelod ynghylch awtistiaeth. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn feirniadol o'r diffyg cefnogaeth ac ymgysylltiad gan Lywodraeth Cymru gan argymhell yr hyn a ganlyn yn y dyfodol, pe bai'r Senedd yn pleidleisio o blaid yr hawl i Aelod gael caniatâd i gyflwyno Bil:

*"... mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ddarparu gwybodaeth i sicrhau bod y costau mewn memorandwm esboniadol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl, gan ddefnyddio'r wybodaeth am gost sydd ar gael i Lywodraeth Cymru."*<sup>26</sup>

**24.** Wrth fyfyrio ar ei brofiad ei hun o gyflwyno Bil arfaethedig gan Bwyllgor ar y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru), argymhellodd y Pwyllgor Cyllid blaenorol "y dylid ceisio ymgysylltu'n gynnar â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu Bil Pwyllgor drafft a'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef".<sup>27</sup>

**25.** Mae'r cyfle i Aelodau unigol neu Bwyllgorau gyflwyno Bil yn gyfyngedig iawn. Rydym o'r farn felly y dylid gosod disgwyliad ar Lywodraeth Cymru i ymgysylltu a darparu gwybodaeth berthnasol i lywio cynigion deddfwriaethol fel mater o egwyddor. Nid ydym o'r farn bod hyn yn llafurus o ystyried mai dim ond nifer fechan o Filiau (os o gwbl) a allai gael eu cyflwyno yn ystod tymor pum mlynedd y Senedd.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, yn y dyfodol, yn ymrwmo i gynorthwyo Aelodau unigol a/neu Bwyllgorau sy'n cynnig deddfwriaeth drwy ddarparu gwybodaeth ariannol berthnasol cyn cyflwyno Bil i sicrhau bod costau mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl.

## 4. Comisiwn Bwyd

**26.** Mae'r costau mwyaf sylweddol a gynhwysir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ymwneud â sefydlu Comisiwn Bwyd, sydd â chost

---

<sup>26</sup> Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd: Goblygiadau ariannol y Bil Awtistiaeth (Cymru)

<sup>27</sup> Pwyllgor Cyllid y Bumed Senedd: Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd, argymhelliad 15, tudalen 48

amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru rhwng £0.75 miliwn a £1.5 miliwn y flwyddyn.<sup>28</sup>

**27.** Yn ôl yr Aelod sy'n gyfrifol, mae'r Bil yn cynnig digon o gwmpas i Lywodraeth Cymru roi trefniadau yn eu lle mewn modd hyblyg o fewn fframwaith y Bil. Dywedodd fod llywio'r natur a'r costau o ran gweithredu'r Comisiwn Bwyd yn nwylo'r Llywodraeth, megis faint mae'n ei dalu i'w staff a faint o staff fyddai ei angen arno. Felly, ni allai ragweld y costau hyn gan y byddan nhw'n gorfod digwydd wedi hynny.<sup>29</sup>

**28.** Gofynnwyd i'r Gweinidog am ei barn ar y datganiad yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n nodi nad yw'n bosibl amcangyfrif faint o'r adnodd staffio cyfredol sydd ynghlwm wrth weinyddu polisi bwyd Llywodraeth Cymru, o ystyried bod hyn yn cael ei wneud mewn seilos ar draws sawl menter.<sup>30</sup> Dywedodd:

*"I don't think it's possible to estimate the resource completely, but I don't think it's because work is in silos... I can tell you about my food division, and that's absolutely at the core of food and drink policy in Welsh Government. That is the food division, which sits in my portfolio. My food division is a very small team—there are only 44 posts. And that might sound a lot, but when you look at what we deliver in relation to food matters—. They manage a budget of just over £7 million, and those 44 posts cost £2.5 million."<sup>31</sup>*

**29.** Mewn ymateb i hyn, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

*"...somebody challenged her as to what the cost of the existing set of legislative frameworks, linked to food is, and the Minister said that they can't make that assessment. Well, it's very difficult—if the Government can't make an assessment of its own costs on what it's delivering already, it's very difficult for us to be prescriptive on every element of what this might cost."<sup>32</sup>*

---

<sup>28</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 83

<sup>29</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 9 Chwefror 2023

<sup>30</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 86

Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 34 a 35, 9 Chwefror 2023

<sup>32</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 83, 9 Chwefror 2023



**30.** Cwestiynodd y Pwyllgor yr amrediad a ddarparwyd ar gyfer cost y Comisiwn Bwyd. Mewn ymateb, eglurodd yr Aelod sy'n gyfrifol:

*"We took a top-down approach to assessing the overall cost of the food commission rather than trying to build up an overall cost, based on detailed actions that the commission will undertake. It also reflects the Scottish Government—the work that they'd undertaken to estimate their costs of a food commission, and, as such, the costs have been modelled on different viable options, as you'll be aware: either a commission similar to the Scottish one or similar to other [Welsh] commissioner offices that currently exist, and that's where you get the variance of cost between what Scotland's costs were and what we know the average costs of what commissioners have worked out to be here in Wales."*<sup>33</sup>

**31.** Ychwanegodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol:

*"...I think I'm correct in saying that the explanatory memorandum to the Scottish Bill wasn't laid long before it was passed, so the costings that we've used in the EM are the most up-to-date figures that we had and what we were notified of by Scottish colleagues, so, from our final discussions."*<sup>34</sup>

**32.** Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog mai'r wybodaeth ddiweddaraf a gafodd gan ei chymheiriaid yn yr Alban yw bod rhagor o adnoddau dynol yn cael eu defnyddio i roi Deddf Cenedl Bwyd Da (yr Alban) 2022<sup>35</sup> ar waith a pharatoi ar gyfer y cynlluniau wrth symud ymlaen. Felly roedd hi'n ystyried y gallai'r gost yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gael ei thanbriso.<sup>36</sup>

**33.** Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor i ddarparu'r dystiolaeth newydd ynghylch costau gweithredu'r Ddeddf yn yr Alban a'i heffaith ar yr amcangyfrifon a ddarparwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil. Mae'r llythyr yn datgan y canlynol:

*"Yn dilyn gwaith cyfathrebu rheolaidd fy swyddogion â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban, mae amcangyfrifon mwy cyfredol bellach ar gael ar gyfer costau*

---

<sup>33</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 79, 9 Chwefror 2023

<sup>34</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 101, 9 Chwefror 2023

<sup>35</sup> [Deddf Cenedl Bwyd Da \(yr Alban\) 2022](#)

<sup>36</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 10, 9 Chwefror 2023

*gweithredu Bil Bwyd Cymru. Mae'r costau amcangyfrifedig ar gyfer elfennau cymharol o Ddeddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022 wedi cynyddu yn sylweddol o'u cymharu â'r rheini yr oedd Llywodraeth yr Alban yn eu disgwyl pan oedd yn Fil, ac a lywiodd Femorandwm Esboniadol Bil Bwyd Cymru. Mae hyn yn golygu bod yr amcangyfrifon a ddyfynnir yn y Memorandwm Esboniadol o ran costau i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru wrth weithredu Bil Bwyd Cymru, wedi eu tanamcangyfrif yn sylweddol.”<sup>37</sup>*

**34.** Mewn ymateb i'r llythyr hwn, ymatebodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil yn uniongyrchol i'r Gweinidog ar 4 Mai, gan ddweud:

*“While I am not disputing changes to estimated costs in Scotland, the statement you have made about the costs of the Food (Wales) Bill being significant underestimates is not accurate. The costs of implementing specific policy areas of the Food (Wales) Bill cannot simply be measured by comparing the figures across nations, without comparing other factors such as how the different provisions of the Bill / Act work in practice.”<sup>38</sup>*

**35.** Roedd y Gweinidog yn pryderu y byddai llawer o ddyblygu rhwng Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015) a'r Comisiwn Bwyd fyddai'n creu llawer iawn o waith iddyn nhw fel Llywodraeth, a'r un peth ar gyfer cyrrff cyhoeddus.<sup>39</sup>

**36.** Esboniodd fod Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys awdurdodau lleol a'r cyrrff iechyd, wneud yr hyn a ganlyn:

*“...to look at the well-being goals, the targets that have been set within any policy or piece of legislation. You have to look at that before you bring that policy and legislation forward. So, to me, this is just another layer.”<sup>40</sup>*

**37.** Fodd bynnag, dywedodd swyddog yr Aelod sy'n gyfrifol yr hyn a ganlyn yn sgil trafodaethau gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol:

---

<sup>37</sup> Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 20 Ebrill 2023

<sup>38</sup> Llythyr gan yr Aelod sy'n gyfrifol at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 4 Mai 2023

<sup>39</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 9 Chwefror 2023

<sup>40</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 25, 9 Chwefror 2023

*“they don't have the expertise, they don't have the capacity, to look at a lot of what we're proposing within their current resources. So, if we were to go ahead with one of the options that has been suggested of enabling the future generations commissioner to do this, then there's a cost impact to that; there's a resource impact to that, both financial and in terms of human resource implications as well.”<sup>41</sup>*

## Safbwynt y Pwyllgor

**38.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y gost o sefydlu a gweithredu'r Comisiwn Bwyd, a amcangyfrifir rhwng £0.75 miliwn a £1.5 miliwn y flwyddyn, yn seiliedig ar y costau yn neddfwriaeth Llywodraeth yr Alban a'r gost gyfartalog o redeg swyddfeydd comisiynwyr presennol Cymru. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog a'r Aelod sy'n gyfrifol, am ddarparu rhagor o wybodaeth mewn cysylltiad â chostau amcangyfrifedig y Bil. Er ein bod wedi nodi'r gohebiaethau yn ein hadroddiad, nid yw'r Pwyllgor wedi cael cyfle i holi ymhellach yr Aelod sy'n gyfrifol na'r Gweinidog am y wybodaeth hon. Nodwn safbwynt y Gweinidog, fodd bynnag, y gallai'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o ran sefydlu Comisiwn Bwyd fod wedi'u tanamcangyfrif, ar sail y cyfrifiadau diweddaraf a ddarparwyd gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer elfennau o Ddeddf yr Alban. Nodwn hefyd safbwynt yr Aelod sy'n gyfrifol, na all costau gweithredu meysydd polisi penodol gael eu mesur, yn syml, drwy gymharu'r ffigurau o'r Alban, heb gymharu ffactorau eraill, fel sut y bydd darpariaethau gwahanol yn gweithio'n ymarferol. Er hyn oll, rydym o'r farn y dylid gwneud rhagor o waith i asesu'r costau yn y maes hwn. Gwnaeth yr Aelod sy'n gyfrifol hefyd gydnabod mai mater i Lywodraeth Cymru fydd llywio natur a chostau'r Comisiwn Bwyd, gan gynnwys nifer y staff sydd eu hangen i'w gefnogi.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn ailasesu ac yn diweddarau'r costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar y costau diweddaraf a ddarparwyd gan Lywodraeth yr Alban ar gyfer Deddf Cenedl Bwyd Da (yr Alban) 2022.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn cysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â maint a chwmpas y Comisiwn Bwyd, gan gynnwys nifer y staff sy'n ofynnol i'w gefnogi, ac yn diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

---

<sup>41</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 9 Chwefror 2023

**39.** Mae'r Pwyllgor yn nodi pryderon y Gweinidog y byddai'r Bil yn arwain at ddyblygu gyda Deddf 2015 a'r nodau llesiant sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn awgrymu nad oes gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yr arbenigedd na'r capasiti o fewn ei hadnoddau presennol i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol sy'n ymwneud â'r Bil hwn.

**Casgliad 3.** Ni all y Pwyllgor ddod i farn ynghylch a fyddai'r Bil yn arwain at ddyblygu gyda Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac a oes gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yr arbenigedd neu'r capasiti i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol sy'n ymwneud â'r Bil, o ystyried y diffyg gwybodaeth sydd ar gael ar y mater hwn.

## 5. Strategaeth fwyd genedlaethol

### Arbedion costau

---

**40.** Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth fwyd genedlaethol, ar ôl cael cyngor gan y Comisiwn Bwyd. Gallant hefyd gael cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.<sup>42</sup>

**41.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi nad oedd yn bosibl mesur arbedion costau gan y bydd y rhain yn cael eu llywio gan gynnwys y strategaeth fwyd genedlaethol.<sup>43</sup>

**42.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol mai Llywodraeth Cymru, ac o bosib y Comisiwn Bwyd, fydd yn gyfrifol am ddadansoddi a mesur yr arbedion cost gwirioneddol.<sup>44</sup> Dywedodd mai bwriad y strategaeth fwyd yw caniatáu i Lywodraeth Cymru ddod â'i chynlluniau a'i strategaethau presennol at ei gilydd mewn ffordd ymlaen sy'n gydlynol gan roi cyfle, felly, i Lywodraeth Cymru ystyried yr hyn a ganlyn:

*"...what is currently spent on what, and whether any spending could be redirected to achieve better outcomes or to remove areas of contradictory spending."<sup>45</sup>*

**43.** Nodir fel a ganlyn ym mhapur tystiolaeth y Gweinidog:

---

<sup>42</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 88

<sup>43</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 76

<sup>44</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 9 Chwefror 2023

<sup>45</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 116, 9 Chwefror 2023

*“Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau na fyddai arbedion yn dod i'r amlwg oherwydd y bydd angen parhau i gyflawni polisiau presennol a pholisiau a gynlluniwyd ynghyd â'r holl waith canlyniadol sy'n deillio o fewn Llywodraeth Cymru neu rhwng timau Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Ni all strategaeth fwyd genedlaethol gymryd lle'r gwaith manwl o lunio polisiau a chynlluniau gweithredol. Rydym yn rhagweld y bydd angen i gyrff cyhoeddus eraill barhau i wneud yr hyn y maent yn ei wneud ar hyn o bryd ac na fyddai unrhyw arbedion o ran ymdrech na chostau.”<sup>46</sup>*

## Buddion

---

**44.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y Comisiwn Bwyd “yn ailosod llywodraethiant y system fwyd yng Nghymru, a bydd yn cyd-greu ac yn goruchwyllo'r gwaith o gyflwyno strategaeth fwyd genedlaethol ochr yn ochr â Gweinidogion Cymru a rhanddeiliaid eraill”.<sup>47</sup>

**45.** Dywed yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol nad yw'n bosibl meintioli buddion nes ffurfio strategaeth genedlaethol, polisiau a nodau.<sup>48</sup>

**46.** Fodd bynnag, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y gallai'r Bil fod â buddion amgylcheddol drwy gamau amgylcheddol a gymerir tuag at gyrraedd nodau sylfaenol ac eilaidd. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gall hyn, yn ei dro, fod o fudd i rywogaethau a chynefinoedd, gwella iechyd pridd ac ansawdd aer a dŵr.<sup>49</sup>

**47.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi:

*“Bydd y Bil yn caniatáu i Gymru gyflawni ei hymrwymiaidau cyfrifoldeb byd-eang drwy leihau mewnforion bwyd amgylcheddol a chymdeithasol gostus, gan hyrwyddo Cymru fel dinesydd byd-eang da.”<sup>50</sup>*

**48.** Er iddo nodi nifer y buddion cymdeithasol ac amgylcheddol, a'r buddion o ran iechyd sydd i'r Bil, daeth yr Aelod sy'n gyfrifol i'r casgliad na ellir eu pennu ar bob adeg mewn termau ariannol, ar unwaith. Ychwanegodd:

---

<sup>46</sup> [Papur tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru](#)

<sup>47</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 46

<sup>48</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 73

<sup>49</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 73

<sup>50</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 73

*"...without the pump-priming and the foresight and the groundwork and the foundations that you need to invest into that major shift, you won't be able to appraise fully the societal value for future generations."<sup>51</sup>*

**49.** Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol eu bod wedi gwneud eu gorau i ystyried costau a buddion rhai materion anodd ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y Memorandwm Esboniadol. Rhoddodd enghraifft:

*"...if you're looking more broadly, the cost of obesity to Wales is around £3 billion a year. This Bill is not a silver bullet, we know that, but, if it helps to reduce obesity rates by an amount through its focus on creating a more equitable food system, which is focused on securing better diets that may help to improve people's health, then it could help to ensure cost savings to the public purse."<sup>52</sup>*

**50.** Dywedodd y Gweinidog nad oedd hi wedi ei hargyhoeddi y byddai'r Bil yn creu unrhyw fuddion ond dywedodd y byddai'n creu costau i lawer o gyrrff cyhoeddus eraill.<sup>53</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**51.** Rydym yn siomedig nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys amcangyfrif o arbedion cost sy'n deillio o'r Bil gan fod hyn yn elfen allweddol o'r broses arfarnu opsiynau a dylai gefnogi penderfyniadau cyn cyflwyno'r Bil. Yn ôl yr hyn a glywsom, gan y bydd y strategaeth fwyd genedlaethol yn cael ei chreu a'i darparu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Bwyd, ni fydd yr arbedion costau yn hysbys nes ffurfio strategaeth genedlaethol, polisiau a nodau. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl cael asesiad effaith lawn a thrylwyr gyda'r strategaeth fwyd genedlaethol.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell cael asesiad effaith llawn gyda'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol ac y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y Senedd yn cael cyfle i gynnal gwaith craffu ar unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â hyn.

**52.** Er ein bod yn nodi ac yn croesawu barn yr Aelod sy'n gyfrifol y bydd nifer o fuddion cymdeithasol, buddion amgylcheddol a buddion o ran iechyd i'r Bil,

---

<sup>51</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 85 a 86, 9 Chwefror 2023

<sup>52</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 112, 9 Chwefror 2023

<sup>53</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 61, 9 Chwefror 2023

rydym yn nodi hefyd nad yw'r Gweinidog wedi'i llwyr hargyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig na chynhaliwyd asesiad llawnach o fuddion y ddeddfwriaeth hon cyn cyflwyno'r Bil, gan gynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gynnal rhagor o waith yn dadansoddi buddion costau'r Bil ac y dylid diweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gynnwys rhagor o wybodaeth am y buddion hyn, gan gynnwys sut y cânt eu dadansoddi a phryd y rhagwelir y cânt eu cyflawni.

## 6. Cynlluniau bwyd lleol

**53.** Bydd y Bil drafft yn ei gwneud yn ofynnol i rai cyrff cyhoeddus (ac eithrio Gweinidogion Cymru) gyhoeddi cynllun bwyd lleol sy'n nodi'r polisiau unigol y maent yn bwriadu eu dilyn er mwyn cyfrannu at hyrwyddo'r nod bwyd sylfaenol a'r nodau bwyd eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd.<sup>54</sup>

**54.** Gofynnwyd i'r Aelod sy'n Gyfrifol pam nad oedd yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth berthnasol i amcangyfrif y gost o weithredu cynlluniau bwyd lleol. Dywedodd:

*"The costing of the plans would be dependent upon how they were designed, again, and it would be up to Welsh Ministers, as I said earlier, in consultation with the food commission, to shape those. So that's probably why it's a little bit unquantifiable, to be honest."<sup>55</sup>*

**55.** Fodd bynnag, amlygodd yr Aelod sy'n gyfrifol fod rhai cyrff cyhoeddus eisoes yn gwneud llawer o waith o ran gweithredu cynlluniau bwyd lleol<sup>56</sup>.

Ychwanegodd ei swyddog:

*"So, the cost impact overall, if we were to give a blanket figure, would be different according to local authority. As we mentioned earlier, you might expect a council like Caerphilly, which is quite progressive on this, to already be able to quantify its costs, know how much it spends on its work and the streams deriving from that, whereas other councils—and we've been told this in our stakeholder engagement—perhaps are not at a similar level, so the extent to which they can estimate the costs*

---

<sup>54</sup>Y Memorandwm Esboniadol, tudalen 92

<sup>55</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 118, 9 Chwefror 2023

<sup>56</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 127, 9 Chwefror 2023

*that they already have, and what they might envisage that they might need, is quite difficult from their perspective.”<sup>57</sup>*

**56.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd costau mewn perthynas â'r adolygiad pum mlynedd o gynlluniau bwyd lleol yn disgyn y tu allan i amserlen costau'r asesiad effaith hwn.

**57.** Dywedodd yr Aelod sy'n gyfrifol mai darparu asesiad effaith dros amserlen o bum mlynedd fu'r dull safonol ar gyfer deddfwriaeth Aelodau. Ychwanegodd:

*“We did note that the five-year review of local plans falls outside of the five-year costings provided. And, to be transparent, we provided a cost for this work in the RIA, noting it would fall outside the five-year period.”<sup>58</sup>*

**58.** Nododd papur tystiolaeth y Gweinidog y "byddai'n well defnyddio cyfnod arfarnu deng mlynedd o hyd er mwyn talu am y cylch costau yn fwy llawn yn hytrach na defnyddio'r dull pum mlynedd o hyd a fabwysiedir".<sup>59</sup>

## Safbwynt y Pwyllgor

**59.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi cynlluniau bwyd lleol sy'n nodi'r polisiâu unigol y maent yn bwriadu eu dilyn er mwyn cyfrannu at hyrwyddo'r nodau bwyd sylfaenol ac eilaidd, a chyflawni'r targedau bwyd. Unwaith eto, mae'n siomedig nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi gallu rhoi manylion y costau ar gyfer gweithredu cynlluniau bwyd lleol o ystyried nad yw'r cynlluniau'n hysbys ar hyn o bryd. Rydym yn falch bod rhai cyrff cyhoeddus eisoes yn gwneud llawer o waith o ran gweithredu cynlluniau bwyd lleol ac er y bydd y costau hyn yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, rydym o'r farn y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol fod wedi ceisio amcangyfrif amrediad ar gyfer y costau hyn.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Aelod sy'n gyfrifol roi manylion y cyrff cyhoeddus sydd eisoes yn ymgymryd â gwaith i weithredu cynlluniau bwyd lleol, a defnyddio'r wybodaeth hon i gyfrifo ystod bosibl o gostau sy'n codi o'r Bil. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

---

<sup>57</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 119, 9 Chwefror 2023

<sup>58</sup> Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, paragraff 153, 9 Chwefror 2023

<sup>59</sup> [Papur tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru](#)



**60.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd y costau mewn perthynas â'r adolygiad pum mlynedd o gynlluniau bwyd yn disgyn y tu allan i'r amserlen ar gyfer pennu costau'r asesiad effaith hwn. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y gall y cyfnod asesu amrywio rhwng Biliau, gan ddibynnu ar y darpariaethau oddi mewn iddynt. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, byddai cyfnod arfarnu hwy wedi sicrhau bod yr adolygiad o gynlluniau bwyd yn disgyn o fewn costau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr Aelod sy'n gyfrifol yn diweddarau'r costau o ran yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol dros gyfnod arfarnu o ddeng mlynedd i ganiatáu ar gyfer cynnwys costau mwy cyflawn yn ymwneud â chynlluniau bwyd lleol.